

SESIWN DAEARYDDIAETH 7: NEWIDIADAU DROS AMSER

Ystod oedran: 11–16 oed

<p>Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ba newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod 15 mlynedd y prosiect Bywydau Ifanc, o 2000 i 2015. Yn gyntaf, byddant yn ystyried y cynnydd a wnaed yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam tuag at Nodau Datblygu'r Mileniwm (NDM). Yna, bydd y dysgwyr yn nodi rhai newidiadau penodol sydd wedi digwydd yn rhai o'r cymunedau Bywydau Ifanc, er enghraifft ym maes iechyd ac addysg, yn ogystal ag i'r seilwaith. Yn olaf, byddant yn myfyrio ar ba newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ac yna'n ystyried dyfodol tebygol a dyfodol dymunol.</p>		
<p>Amcanion dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi peth o'r cynnydd a wnaed tuag at yr NDMau yn y pedair gwlad Bywydau Ifanc. • Nodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhai o'r cymunedau Bywydau Ifanc. • Rhagweld newidiadau yn y gwledydd hyn yn y dyfodol. • Trafod syniadau ag eraill, a rhoi rhesymau dros ddewisiadau. 	<p>Deilliannau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dysgwyr yn defnyddio data datblygiad i nodi peth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr NDMau ym mhob un o'r pedair gwlad Bywydau Ifanc. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio data ansoddol i nodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhai o'r cymunedau Bywydau Ifanc. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio llinell amser i gofnodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y cymunedau Bywydau Ifanc, ac yna'n rhagweld dyfodol tebygol a dyfodol dymunol. 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa gynnydd a wnaed yn erbyn yr NDMau? • Pa heriau sy'n dal i fodoli? • Yn eich barn chi, pam y mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn rhai targedau (neu mewn rhai gwledydd) ond nid yn erbyn rhai eraill? • Pa newidiadau sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd yn y dyfodol, yn eich barn chi? • Beth a fyddai'n well gennych chi ei weld yn digwydd? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Sioe sleidiau Daearyddiaeth B</i> (sleidiau 42-48) • Tafenni adnoddau: <ul style="list-style-type: none"> ○ <i>Siarad am newidiadau – Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam</i> • Tafenni gweithgareddau: <ul style="list-style-type: none"> ○ <i>Cynnydd yr NDMau – Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam</i> ○ <i>Archwilio newidiadau</i> ○ <i>Llinell amser dyfodol delfrydol</i> 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr <i>Dylai disgyblion gael eu haddysgu i:</i> Daearyddiaeth CA3 Daearyddiaeth ddynol a ffisegol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall prosesau allweddol ym maes daearyddiaeth ddynol sy'n ymwneud â phoblogaeth a threfoli; datblygu rhyngwladol; gweithgaredd economaidd yn y sectorau cynradd, eilaidd, trydyddol a phedryddol; a'r defnydd o adnoddau naturiol. 	<p>Cymru Daearyddiaeth CA3 Dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a phrosesau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol, a sut y mae'r prosesau'n cydberthyn. • Egluro sut a pham y mae lleoedd ac amgylcheddau yn newid, a nodi tueddiadau a goblygiadau ar gyfer y dyfodol. <p>Amrediad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Astudio'r byd cyfoethog a'r byd tlawd: datblygiad economaidd mewn lleoliadau/gwledydd gwahanol. • Astudio dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o ran byw'n gynaliadwy, a'r chyfrifoldebau o fod yn ddinesydd byd-eang. 	<p>Yr Alban Astudiaethau cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallaf ddisgrifio'r ffactorau a gyfrannodd at brif newid cymdeithasol, gwleidyddol neu economaidd yn y gorffennol, a gallaf asesu'r effaith ar fywydau pobl. SOC 3-05a • Wedi astudio gweithgaredd economaidd, gallaf egluro ei ddatblygiad, ac asesu effaith newid yn ei ardal leol a'r tu hwnt iddi. SOC 4-10c • Gallaf gymharu'r gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng gwledydd mwy economaidd ddatblygedig a gwledydd llai economaidd ddatblygedig, a gallaf drafod y posibilïadau ar gyfer lleihau'r gwahaniaethau hyn. SOC 3-11a • Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am faterion cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd cyfredol i ddehongli tystiolaeth ac i gyflwyno barn wybodus. SOC 3-15a

Noder:

- Mae angen mwy nag awr i gwblhau'r holl weithgareddau yn y sesiwn hon. Fel yn achos sesiynau daearyddiaeth eraill, gallwch benderfynu hepgor rhai gweithgareddau, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, ac ar wybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eich dysgwyr. Bwriad y deunydd yw cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain. Efallai y bydd angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.
- Mae proffiliau'r bobl ifanc sy'n ymddangos yn yr adnoddau hyn yn seiliedig ar gyfweiliadau trylwyr a gynhaliwyd â nhw yn 2007, pan oeddent yn 12 i 16 blwydd oed. Dewiswyd y grŵp oedran hwn fel bod y bobl ifanc tua'r un oed â'r dysgwyr yn y DU. Yn y sesiwn hon, mae'r dysgwyr yn archwilio rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y cymunedau lle mae'r bobl ifanc hyn yn byw yn ystod cyfnod 15 mlynedd y prosiect Bywydau Ifanc (o 2000 hyd at 2015).

Gweithgaredd 7.1 (40 mun)

Pa gynnydd a wnaed?

Noder: Caiff y Nodau Datblygu Cynaliadwy eu cyflwyno i'r dysgwyr yn y Sesiwn cyflwyno.

- Dangoswch sleid 43, ac atgoffwch y dysgwyr fod y Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau) yn set o nodau ar gyfer y byd, sy'n anelu at sicrhau bod ein planed yn deg, yn iach ac yn gynaliadwy erbyn 2030. Bydd yr NDCau yn adeiladu ar gynnydd a chyflawniadau Nodau Datblygu'r Mileniwm (NDMau), y cytunodd arweinwyr y byd arnynt yn y flwyddyn 2000, ac a ddaeth i ben yn 2015. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y *Nodiadau cefndir i athrawon*.
- Defnyddiwch y ddolen ganlynol i rannu ffeithluniau sy'n dangos cynnydd y byd tuag at yr NDMau, ynghyd â'r heriau sy'n dal i fodoli: www.un.org/millenniumgoals/multimedia.shtml#prettyPhoto
- Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r ffeithluniau. Efallai y gallech ofyn y cwestiynau canlynol:
 - Pa gynnydd a wnaed tuag at yr NDMau?
 - A yw'r cynnydd a wnaed yn eich synnu? A oeddech yn meddwl y byddai yna fwy neu lai o gynnydd?
 - Pa heriau sy'n dal i fodoli?
- Atgoffwch y dysgwyr fod y cynnydd hwn yn ymwneud â'r byd cyfan, ac yna tynnwch eu sylw at y ffaith na fu'r cynnydd yn unffurf mewn gwledydd gwahanol. Mewn rhai gwledydd, mae rhai o'r NDMau wedi cael eu cyflawni, tra bo cynnydd mewn gwledydd eraill wedi bod yn fach iawn.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau. Rhwng gopi i bob pâr o *Cynnydd yr NDMau* ar gyfer un o'r pedair gwlad Bywydau Ifanc: Ethiopia, India, Periw neu Fiet-nam.
- Eglurwch fod pob tabl yn dangos cynnydd y wlad yn erbyn rhai o dargedau'r NDMau (a gofnodwyd ym mis Tachwedd 2014). Mae'r disgrifiadau yn y golofn "Lefel y wlad" yn dangos pa mor dda y mae pob gwlad yn ei wneud o gymharu â'i gilydd, yn ôl pob un o'r dangosyddion datblygu. Er enghraifft, mae gan Ethiopia lefel "Tlodi uchel iawn", tra bo gan Beriw lefel "Tlodi isel".
- Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio'r data ar gyfer eu gwlad. Ar gyfer pob targed NDM, dylai'r dysgwyr ddefnyddio'r gwahaniaeth rhwng y data o'r flwyddyn gyntaf a'r data o'r flwyddyn

ddiweddaraf, i asesu'r cynnydd a wnaed. Yna, dylent ddefnyddio system goleuadau traffig i liwio pob un o'r celloedd yn y golofn "Cynnydd", i ddangos cynnydd y wlad tuag at y targed perthnasol:

- Gwyrdd: y targed wedi'i gyrraedd neu wedi'i basio
- Oren: cynnydd cymedrol
- Coch: ychydig neu ddim cynnydd.

Os oes data ar goll, neu os nad oes yna ddigon o ddata, dylai'r dysgwyr adael y gell heb ei lliwio. *Nodwch mai dim ond data blwyddyn gyntaf a blwyddyn ddiweddaraf yr astudiaeth Bywydau Ifanc y mae tablau Cynnydd yr NDMau yn eu dangos, ac nid y data ar gyfer y blynnyddoedd rhyngddynt, a allai fod wedi codi uwchlaw'r dechreubwynt a'r diweddbwynt, neu ddisgyn oddi tanynt.*

- Yn eu parau, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis tri dangosydd datblygu a ddylai fod yn flaenoriaeth, yn eu barn nhw, ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Eglurwch mai penderfyniad y dysgwyr yw sut y byddant yn dewis, ond y bydd yn rhaid iddynt allu rhoi rhesymau dros eu dewisiadau.
- Nesaf, trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar pâr, gyda phob pâr wedi ymchwilio i wlad Bywydau Ifanc wahanol. Yna, dylai pob pâr gyflwyno ei ganfyddiadau i weddill y grŵp.
- Gorffennwch trwy rannu a thrafod syniadau'r dysgwyr â'r dosbarth cyfan:
 - *Pam yr ydych yn meddwl bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn rhai targedau, ond nid yn erbyn rhai eraill?*
 - *Pam yr ydych yn meddwl bod mwy o gynnydd wedi'i wneud yn rhai o'r gwledydd Bywydau Ifanc nag yn y lleill?*
 - *Beth allai'r heriau fod o ran cyflawni rhai o'r targedau hyn?*
 - *A ydych yn meddwl y bydd y cynnydd y mae'r wlad gyfan wedi'i wneud yr un peth ym mhob rhan o'r wlad (er enghraifft mewn ardaloedd gwledig a threfol)? Pam/Pam ddim?*

Gweithgaredd 7.2 (15 mun)

Siarad am newidiadau

Noder: Mae'r dysgwyr hefyd yn archwilio newidiadau yn rhai o'r cymunedau Bywydau Ifanc, yn ogystal ag yn y gwledydd yn gyffredinol, yn Sesiwn Mathemateg 6.

- Atgoffwch y dysgwyr fod ymchwilwyr y prosiect Bywydau Ifanc wedi bod yn dilyn y bobl ifanc a'r cymunedau ers nifer o flynyddoedd. Dechreuodd y prosiect yn 2000, ac roedd yn dilyn dwy garfan o blant – carfan iau, a oedd, ar y pryd, yn 0-1 flwydd oed, a charfan hŷn, a oedd yn 5-6 mlwydd oed. Casglwyd y rownd gyntaf o ddata yn 2002. Casglwyd data eto yn 2006, 2009 a 2013. Eglurwch fod hyn wedi caniatáu i'r ymchwilwyr astudio sut y mae bywyd yn y cymunedau hyn wedi newid dros amser. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod 'nawr yn mynd i ddysgu rhagor am rai o'r newidiadau hyn. Efallai yr hoffech nodi yma fod yr arsylwadau hyn wedi dod o ddata ansoddol Bywydau Ifanc, ac egluro'r gwahaniaeth rhwng y math hwn o ddata a data meintiol.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau, a rhowch gopi i bob pâr o *Siarad am newidiadau* ar gyfer un o'r gwledydd Bywydau Ifanc. Eglurwch fod y taflenni hyn yn cynnwys arsylwadau gan ymchwilydd Bywydau Ifanc ym mhob un o'r gwledydd. Mae'r ymchwilydd yn disgrifio rhai o'r newidiadau a welwyd yng nghymunedau rhai o'r bobl ifanc sy'n rhan o'r prosiect, ac a gyflwynwyd i'r dysgwyr

mewn sesiynau cynharach. Mae fersiynau byrrach o'r arsylwadau ar gyfer y pedair cymuned Bywydau Ifanc (un o bob gwlad) i'w gweld ar sleidiau 44 i 47. *Nodwch fod yr ymchwilyr y sonnir amdanynt yma yn rhan o dîm ehangach o ymchwilyr ym mhob gwlad.*

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen am y newidiadau yn y cymunedau trefol a gwledig yn eu gwlad Bywydau Ifanc, a'u trafod, ac yna fynd ati i weithio gyda'i gilydd i ateb y cwestiynau yn *Archwilio newidiadau*.
- Gofalwch fod amser ar ddiwedd y gweithgaredd i drafod syniadau fel dosbarth cyfan.

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd posibl o gyfrannu at fyd mwy cyfiawn a chyfartal, heb dlodi ynddo, gweler 'Atebion Oxfam i anghydraddoldeb' yn y *Nodiadau cefndir i athrawon*.

Gweithgaredd 7.3 (30 mun)

Dyfodol delfrydol

- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ddefnyddio offeryn mapio meddwl i fynegi eu syniadau ynghylch y newidiadau sydd wedi digwydd yn un o'r pedair gwlad Bywydau Ifanc: Ethiopia, India, Periw neu Fiet-nam.
- Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu llinell amser, sy'n mynd 'nôl i'r flwyddyn 2000. Dylai'r llinell hon rannu yn 2015, sef y flwyddyn y daeth yr astudiaeth Bywydau Ifanc i ben. Ar y llaw arall, gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r *Llinell amser dyfodol delfrydol* yn dempled. Mae'r templed hwn hefyd ar gael ar sleid 48.
- Ar y llinell amser sengl (o 2000 hyd at 2015), dylai'r dysgwyr gofnodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y wlad o'u dewis. Gallai'r dysgwyr gynnwys peth o gynnydd y wlad tuag at yr NDMau (a astudiwyd yn *Gweithgaredd 7.1*) a/neu rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y cymunedau Bywydau Ifanc (a astudiwyd yn *Gweithgaredd 7.2*). Gallai'r dysgwyr hefyd gynnwys unrhyw newidiadau y maent wedi'u nodi mewn sesiynau Daearyddiaeth, Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg blaenorol. Gellir cynrychioli'r newidiadau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn geiriau, neu ar ffurf darluniau, ffeithluniau neu ddelweddau wedi'u torri allan. Anogwch y dysgwyr i gofnodi dim ond y newidiadau hynny y mae ganddynt dystiolaeth yn eu cylch.
- Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ystyried sut beth fydd y 15 mlynedd nesaf, yn eu barn nhw, ar gyfer y cymunedau Bywydau Ifanc yn y wlad o'u dewis, a beth yw eu gobeithion ar gyfer y blynyddoedd hynny.
- Ar y llinell amser isaf, gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi'r newidiadau a fydd yn debygol o ddigwydd, yn eu barn nhw (y *dyfodol tebygol*). Anogwch y dysgwyr i nodi rhesymau dros eu syniadau: er enghraifft, a ydynt yn seiliedig ar y newidiadau dros y 15 mlynedd diwethaf, neu ar newidiadau y maent yn ymwybodol ohonynt mewn rhannau eraill o'r byd? Ar y llinell amser uchaf, dylai'r dysgwyr gofnodi'r newidiadau y maent yn gobeithio y byddant yn digwydd (y *dyfodol a ffefrir*). Nodwch y gall y rhain fod yr un peth neu'n wahanol i'r rheiny ar y llinell amser isaf.
- Unwaith eto, gall y dysgwyr gynrychioli eu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn geiriau, neu trwy ddarluniau, ffeithluniau neu ddelweddau wedi'u torri allan.
- Gofalwch fod amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr rannu eu llinellau amser ag eraill, er enghraifft trwy gylchdroi o amgylch y dosbarth i edrych ar waith ei gilydd. Trafodwch y cwestiynau canlynol:

- Pa newidiadau sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd, yn eich barn chi? Pam yr ydych chi'n meddwl hyn?
- Beth fyddai'n well gennych chi ei weld yn digwydd?
- Pwy arall ydych chi'n meddwl a allai fod â syniadau tebyg ynghylch y dyfodol a ffefrir gennych?
- Beth a ddylai newid os yw'r dyfodol a ffefrir i gael ei wireddu, yn hytrach na'r dyfodol tebygol?
- Pwy ydych chi'n meddwl sy'n gweithio i greu dyfodol o'r fath?
- Sut y gallwn ni gyfrannu at y dyfodol hwnnw a ffefrir?

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd posibl o gyfrannu at fyd mwy cyfiawn a chyfartal, heb dlodi ynddynt, gweler 'Atebion Oxfam i anghydraddoldeb' yn y *Nodiadau cefndir i athrawon*.

Rhagor o syniadau

- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y gwahaniaeth rhwng defnyddio data meintiol a data ansoddol, a sut y mae un math yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r math arall. Anogwch y dysgwyr i edrych eto ar y taflenni gwaith *Cynnydd yr NDMau* a *Siarad am newidiadau*. Gallech ddefnyddio'r cwestiynau canlynol i'w hannog:
 - Beth yw manteision a chyfyngiadau data meintiol?
 - Beth yw manteision a chyfyngiadau data ansoddol?
 - Pa un y mae'n well gennych ei ddefnyddio, a pham?
 - Pam y casglodd ymchwilwyr y prosiect *Bywydau Ifanc* y ddau fath o ddata?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i gynnydd pob un o'r pedair gwlad *Bywydau Ifanc* yn erbyn targedau eraill yr NDMau. Gallai'r dysgwyr ddefnyddio *Cipluniau o Gynnydd NDMau* y *Gwledydd* i'w helpu: mdgs.un.org/unsd/mdg/Host.aspx?Content=Data/snapshots.htm
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r wefan *Bywydau Ifanc* i ddarganfod mwy am rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser ym mhob un o'r gwledydd. Mae dogfennau crynodeb defnyddiol ar gyfer pob gwlad ar gael yma:
 - www.younglives.org.uk/files/data-visualisation-and-graphics/ethiopia-r4-findings
 - www.younglives.org.uk/files/data-visualisation-and-graphics/india-r4-findings
 - www.younglives.org.uk/files/data-visualisation-and-graphics/peru-round-4-findings
 - www.younglives.org.uk/files/data-visualisation-and-graphics/vietnam-r4-findings-1
- Yn *Sesiwn Mathemateg 6*, mae'r dysgwyr yn archwilio rhai o'r ffyrdd y mae mynediad i ddŵr, glanweithdra a thrydan yn y cymunedau *Bywydau Ifanc* yn y pedair gwlad (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) wedi newid dros amser. Mae'r dysgwyr yn tynnu graffiau llinell i gynrychioli'r newidiadau dros amser ar gyfer dangosyddion datblygu gwahanol yn y pedair gwlad hyn ac yn y DU. Yna, maent yn trafod sut y mae'r dangosyddion wedi newid, pa ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y newidiadau hyn, ac unrhyw nodweddion tebyg a gwahanol o ran y cyfraddau newid rhwng y pum gwlad. Yn olaf, mae'r dysgwyr yn gwneud rhagfynegiadau ynghylch sut y bydd y dangosyddion hyn yn newid yn y dyfodol, yn eu barn nhw.
- Yn *Sesiwn Saesneg 6*, mae'r dysgwyr yn ystyried eu dymuniadau ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd, eu cymunedau a'u gwlad. Yna, yn eu tro, maent yn actio rôl ac yn dychmygu beth fyddai dymuniadau'r bobl ifanc o'r cymunedau *Bywydau Ifanc* sy'n rhan o'r prosiect. Yn olaf, maent yn defnyddio fideo byr i egluro dymuniadau rhai o'r bobl ifanc o'r cymunedau *Bywydau*

Ifanc ym Mheriw, ac yn trafod unrhyw nodweddion tebyg a gwahanol rhwng y dymuniadau hyn a'u dymuniadau eu hunain.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Cynnydd yr NDMau

Ethiopia

Cyrchnod yr NDM	Targed yr NDM	Dangosydd datblygu	Y flwyddyn gyntaf		Y flwyddyn ddiweddaraf		Lefel y wlad	Cynnydd
			Gwerth	BI.	Gwerth	BI.		
Nod 1: Dileu tlodi a newyn eithafol	Haneru tlodi eithafol	Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol	63.2	1995	36.8	2010	Tlodi uchel iawn	
	Haneru newyn	Canran y boblogaeth sydd heb gael digon o faeth	74.8	1991	32.0	2015	Newyn uchel	
Nod 2: Llwyddo i sicrhau addysg gynradd i bawb	Pob plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd	Canran y plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd	19.2	1994	66.1	2006	Cofrestru isel	
Nod 3: Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a rhoi grym i fenywod	Nifer cyfartal o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyfer addysg gynradd	Cymhareb y merched i'r bechgyn mewn addysg gynradd <i>Byddai 1 yn gyfartal, <1 : llai o ferched na bechgyn, >1 : mwy o ferched na bechgyn</i>	0.66	1990	0.87	2006	Ddim yn gyfartal	
Nod 4: Lleihau marwolaethau ymysg plant	Lleihau cyfradd marwolaethau plant i draean	Cyfradd marwolaethau plant o dan bump (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	205.0	1990	64.4	2013	Cyfradd marwolaethau gymedrol	
Nod 5: Gwella iechyd mamau	Lleihau marwolaethau ymysg mamau i chwarter	Cyfradd marwolaethau mamau (fesul 100,000 o enedigaethau byw)	1,400	1990	420	2013	Cyfradd marwolaethau uchel	
Nod 6: Ymladd HIV/Aids, malaria a chlefydau eraill	Atal lledaeniad HIV/Aids, a dechrau ei wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o heintiadau HIV y flwyddyn (fesul 100 o bobl rhwng 15 a 49 oed)	0.34	1990	0.03	2013	Mynychder isel	
	Atal lledaeniad twbercwlosis, a'i wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o dwbercwlosis (fesul 100,000 o bobl)	369	1990	224	2013	Mynychder cymedrol	
Nod 7: Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol	Haneru cyfran y bobl heb well dŵr yfed	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell ffynhonnell o ddŵr yfed	13	1990	57	2015	Cwmpas isel	
	Haneru cyfran y bobl heb lanweithdra	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell cyfleuster glanweithdra	3	1990	28	2015	Cwmpas isel iawn	
Nod 8: Datblygu partneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu	Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhynggrwyd	Defnyddwyr y Rhynggrwyd fesul 100 o drigolion	0.0	1990	2.9	2014	Defnydd isel iawn	

Ffynhonnell y data: mdgs.un.org/unsd/mdg/Data.aspx



Cynnydd yr NDMau

India

Cyrchnod yr NDM	Targed yr NDM	Dangosydd datblygu	Y flwyddyn gyntaf		Y flwyddyn ddiweddaraf		Lefel y wlad	Cynnydd
			Gwerth	BI.	Gwerth	BI.		
Nod 1: Dileu tlodi a newyn eithafol	Haneru tlodi eithafol	Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol	49.4	1993	23.6	2011	Tlodi uchel iawn	
	Haneru newyn	Canran y boblogaeth sydd heb gael digon o faeth	23.7	1991	15.2	2015	Newyn gweddol uchel	
Nod 2: Llwyddo i sicrhau addysg gynradd i bawb	Pob plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd	Canran y plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd	78.2	1990	98.6	2012	Cofrestru uchel	
Nod 3: Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a rhoi grym i fenywod	Nifer cyfartal o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyfer addysg gynradd	Cymhareb y merched i'r bechgyn mewn addysg gynradd <i>Byddai 1 yn gyfartal, <1 : llai o ferched na bechgyn, >1 : mwy o ferched na bechgyn</i>	0.74	1990	1.03	2012	Cyfartal	
Nod 4: Lleihau marwolaethau ymysg plant	Lleihau cyfradd marwolaethau plant i draean	Cyfradd marwolaethau plant o dan bump (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	125.9	1990	52.7	2013	Cyfradd marwolaethau gymedrol	
Nod 5: Gwella iechyd mamau	Lleihau marwolaethau ymysg mamau i chwarter	Cyfradd marwolaethau mamau (fesul 100,000 o enedigaethau byw)	560	1990	190	2013	Cyfradd marwolaethau gymedrol	
Nod 6: Ymladd HIV/Aids, malaria a chlefydau eraill	Atal lledaeniad HIV/Aids, a dechrau ei wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o heintiadau HIV y flwyddyn (fesul 100 o bobl rhwng 15 a 49 oed)	0.01	1990	0.02	2013	Mynychder isel	
	Atal lledaeniad twbercwlosis, a'i wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o dwbercwlosis (fesul 100,000 o bobl)	217	1990	171	2013	Mynychder cymedrol	
Nod 7: Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol	Haneru cyfran y bobl heb well dŵr yfed	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell ffynhonnell o ddŵr yfed	71	1990	94	2015	Cwmpas uchel	
	Haneru cyfran y bobl heb lanweithdra	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell cyfleuster glanweithdra	17	1990	40	2015	Cwmpas isel iawn	
Nod 8: Datblygu partneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu	Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhyngwlad	Defnyddwyr y Rhyngwlad fesul 100 o drigolion	0.0	1990	18.0	2014	Defnydd uchel	

Ffynhonnell y data: mdgs.un.org/unsd/mdg/Data.aspx

Cynnydd yr NDMau

Periw

Cyrchnod yr NDM	Targed yr NDM	Dangosydd datblygu	Y flwyddyn gyntaf		Y flwyddyn ddiweddaraf		Lefel y wlad	Cynnydd
			Gwerth	BI.	Gwerth	BI.		
Nod 1: Dileu tlodi a newyn eithafol	Haneru tlodi eithafol	Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol	9.8	1994	2.9	2012	Tlodi isel	
	Haneru newyn	Canran y boblogaeth sydd heb gael digon o faeth	31.6	1991	7.5	2015	Newyn gweddol isel	
Nod 2: Llwyddo i sicrhau addysg gynradd i bawb	Pob plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd	Canran y plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd	94.5	1993	94.4	2013	Cofrestru uchel	
Nod 3: Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a rhoi grym i fenywod	Nifer cyfartal o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyfer addysg gynradd	Cymhareb y merched i'r bechgyn mewn addysg gynradd <i>Byddai 1 yn gyfartal, <1 : llai o ferched na bechgyn, >1 : mwy o ferched na bechgyn</i>	0.97	1991	0.99	2013	Cyfartal	
Nod 4: Lleihau marwolaethau ymysg plant	Lleihau cyfradd marwolaethau plant i draean	Cyfradd marwolaethau plant o dan bump (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	80.0	1990	16.7	2013	Cyfradd marwolaethau isel	
Nod 5: Gwella iechyd mamau	Lleihau marwolaethau ymysg mamau i chwarter	Cyfradd marwolaethau mamau (fesul 100,000 o enedigaethau byw)	250	1990	89	2013	Cyfradd marwolaethau isel	
Nod 6: Ymladd HIV/Aids, malaria a chlefydau eraill	Atal lledaeniad HIV/Aids, a dechrau ei wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o heintiadau HIV y flwyddyn (fesul 100 o bobl rhwng 15 a 49 oed)	-	-	0.02	2013	Mynychder isel	
	Atal lledaeniad twbercwlosis, a'i wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o dwbercwlosis (fesul 100,000 o bobl)	246	1990	124	2013	Mynychder isel	
Nod 7: Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol	Haneru cyfran y bobl heb well dŵr yfed	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell ffynhonnell o ddŵr yfed	74	1990	87	2015	Cwmpas cymedrol	
	Haneru cyfran y bobl heb lanweithdra	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell cyfleuster glanweithdra	53	1990	76	2015	Cwmpas isel	
Nod 8: Datblygu partneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu	Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhynggrwyd	Defnyddwyr y Rhynggrwyd fesul 100 o drigolion	0.0	1990	40.2	2014	Defnydd uchel	

Ffynhonnell y data: mdgs.un.org/unsd/mdg/Data.aspx

Cynnydd yr NDMau

Fiet-nam

Cyrchnod yr NDM	Targed yr NDM	Dangosydd datblygu	Y flwyddyn gyntaf		Y flwyddyn ddiweddaraf		Lefel y wlad	Cynnydd
			Gwerth	Bl.	Gwerth	Bl.		
Nod 1: Dileu tlodi a newyn eithafol	Haneru tlodi eithafol	Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol	63.8	1993	2.4	2012	Tlodi isel	
	Haneru newyn	Canran y boblogaeth sydd heb gael digon o faeth	45.6	1991	11.0	2015	Newyn gweddol isel	
Nod 2: Llwyddo i sicrhau addysg gynradd i bawb	Pob plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd	Canran y plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd	97.9	1998	98.1	2013	Cofrestru uchel	
Nod 3: Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a rhoi grym i fenywod	Nifer cyfartal o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyfer addysg gynradd	Cymhareb y merched i'r bechgyn mewn addysg gynradd <i>Byddai 1 yn gyfartal, <1 : llai o ferched na bechgyn, >1 : mwy o ferched na bechgyn</i>	0.99	1991	0.98	2013	Cyfartal	
Nod 4: Lleihau marwolaethau ymysg plant	Lleihau cyfradd marwolaethau plant i draean	Cyfradd marwolaethau plant o dan bump (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	50.6	1990	23.8	2013	Marwolaethau isel	
Nod 5: Gwella iechyd mamau	Lleihau marwolaethau ymysg mamau i chwarter	Cyfradd marwolaethau mamau (fesul 100,000 o enedigaethau byw)	140	1990	49	2013	Marwolaethau isel	
Nod 6: Ymladd HIV/Aids, malaria a chlefydau eraill	Atal lledaeniad HIV/Aids, a dechrau ei wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o heintiadau HIV y flwyddyn (fesul 100 o bobl rhwng 15 a 49 oed)	0	1990	0.03	2013	Mynychder isel	
	Atal lledaeniad twbercwlosis, a'i wrthdroi	Nifer yr achosion newydd o dwbercwlosis (fesul 100,000 o bobl)	251	1990	144	2013	Mynychder cymedrol	
Nod 7: Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol	Haneru cyfran y bobl heb well dŵr yfed	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell ffynhonnell o ddŵr yfed	63	1990	98	2015	Cwmpas uchel	
	Haneru cyfran y bobl heb lanweithdra	Canran y boblogaeth sy'n defnyddio gwell cyfleuster glanweithdra	36	1990	78	2015	Cwmpas isel	
Nod 8: Datblygu partneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu	Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhyngwrwd	Defnyddwyr y Rhyngwrwd fesul 100 o drigolion	0.0	1990	48.3	2014	Defnydd uchel	

Ffynhonnell y data: mdgs.un.org/unsd/mdg/Data.aspx

Siarad am newidiadau

Ethiopia



Mae Yisak Tafere yn ymchwilydd Bywydau Ifanc yn Ethiopia. Mae'n siarad am rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser yn y cymunedau lle mae Netsa a Hadush yn byw.

Netsa, trefol

Mae Netsa (*Ne-as-sa*) yn 12 mlwydd oed. Mae hi'n byw gyda'i mam faeth mewn ardal slymiau yn ninas Addis Ababa, prifddinas Ethiopia.



Mae llawer o newidiadau wedi digwydd yn y gymuned hon dros flynyddoedd y prosiect. Mae nifer o adeiladau newydd wedi'u codi, yn cynnwys swyddfeydd gweinyddu, canolfan iechyd a fferyllfa breifat newydd, canolfan ieuenctid, ac ysgol uwchradd newydd, lle mae llawer o blant y prosiect Bywydau Ifanc yn mynd. Mae gweithwyr estyniad iechyd, sy'n addysgu am lanweithdra a'r ffyrdd o atal clefydau, yn cael eu penodi ar gyfer pob cymuned. Er bod rhai teuluoedd yn gorfod prynu dŵr gan eu cymdogion o hyd, mae dŵr, erbyn hyn, yn mynd trwy bibellau i'r rhan fwyaf o'r aelwydydd yn y gymuned hon.

Fodd bynnag, mae nifer o heriau'n dal i fodoli. Mae'r ardal yn llawn ac yn gyfyng, ac ychydig iawn o welliant a fu o ran tai. Un ystafell yn unig sydd gan nifer o aelwydydd, a hynny ar gyfer dros wyth neu naw o aelodau o'r teulu, ac nid oes ganddynt eu toiled na'u cegin eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r tai yn mynd yn hen iawn, ac maent yn edrych fel

Hadush, gwledig

Mae Hadush (*Haa-dŵ-sh*) yn 13 mlwydd oed. Mae e'n byw mewn pentref mewn ardal wledig yng ngogledd Ethiopia, o'r enw Tigray.



Buom yn ymweld â thair cymuned yn yr ardal hon. Mae nifer o newidiadau wedi digwydd. Bellach, mae gan yr ysgolion cynradd well gwasanaethau – er enghraifft, mae yna 'nawr doiledau ar wahân ar gyfer bechgyn a merched. Mae yna hefyd well canolfan iechyd, sy'n cynnwys digon o welyau ac offer meddygol. Mae tri ar ddeg o bobl yn gweithio yno, yn cynnwys dau weithiwr estyniad iechyd, tair nyrs, un swyddog iechyd a thechnegydd labordy.

Mae gan fwy o bobl ffonau symudol 'nawr. Mae'r system ddyfrhau yn well, ac mae ffermwyr 'nawr yn defnyddio pypiau dyfrhau modur i'w helpu i dyfu llysiau a grawn. Fodd bynnag, mae cyflwr y ffyrdd yn dal i fod yn wael, ac mae'n cymryd amser maith i deithio i Mekele, y

Cydnabyddiaeth y llun: Pob delwedd © Bywydau Ifanc

Siarad am newidiadau

India



Mae Dr Uma Vennam yn ymchwilydd Bywydau Ifanc yn India. Mae'n siarad am rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser yn y cymunedau lle mae Salman a Sarada yn byw.

Salman, trefol

Mae Salman (*Syl-maan*) yn 12 mlwydd oed. Mae'n byw mewn cymdogaeth dlawd yn ninas Hyderabad, prifddinas talaith Telangana yn India.



Mae adeiladau'r ysgol uwchradd leol wedi cael eu gwella: mae yna ffenestri a drysau newydd, mae'r waliau wedi'u paentio'n ffres, mae yna ystafell ymolchi newydd ar gyfer y merched, ac mae yna ystafell cyfrifiaduron. Mae ystafelloedd dosbarth newydd hefyd wedi cael eu hadeiladu yn yr ysgol gynradd. Bellach, mae'r plant yn cael pryd ysgol ganol dydd am ddim yn yr ysgol uwchradd, yn ogystal ag yn yr ysgol gynradd. Mae ffyrdd newydd wedi cael eu hadeiladu, ac mae sbwriel 'nawr yn cael ei glirio'n rheolaidd. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o'r cartrefi ffonau symudol.

Sarada, gwledig

Mae Sarada (*Saa-ry-daa*) yn 12 mlwydd oed. Mae'n byw mewn pentref gwledig yn ne talaith Telangana yn India.



Mae llai o blant yn gweithio yn y caeau cotwm 'nawr. Mae mwy o blant yn mynd i'r ysgol, ac maent yn mynd yn fwy rheolaidd. 'Nawr, os yw plentyn yn colli diwrnod o ysgol, rhaid iddo dalu dirwy o 5 rupi neu lanhau adeilad yr ysgol. Mae yna ysgol uwchradd newydd hefyd.

Nid yw'r pentref wedi'i gysylltu'n dda ag ardaloedd eraill o hyd, ac mae'n rhaid i nifer o bobl gerdded y pellter o 3 km o'r briff ffordd. Fodd bynnag, mae trac rheilffordd newydd wedi cael ei adeiladu, ac mae rhai bellach yn cymudo ar y trê'n i'r dinasoedd a'r trefi cyfagos i brynu a gwerthu nwyddau. Mae twll turio newydd wedi cael ei gloddio i wella'r cyflenwad dŵr i'r gymuned, ond, ar y cyfan, nid oes llawer o welliant wedi bod o ran hylendid a glanweithdra. Mae camlas ddyfrhau newydd hefyd yn helpu ffermwyr i dyfu eu cnydau.

Cydnabyddiaeth y llun: Pob delwedd © Bywydau Ifanc

Siarad am newidiadau

Periw



Mae Vanessa Rojas Arangoitia yn ymchwilydd Bywydau Ifanc ym Mheriw. Mae'n disgrifio'r cymunedau lle mae Elmer ac Eva yn byw, ac mae'n siarad am rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser.

Elmer, trefol

Mae Elmer (*El-mer*) yn 12 mlwydd oed, ac mae'n byw gyda'i chwaer hŷn, Eva, yn Lima. Lima yw prifddinas Periw. Daeth i'r ddinas yn gynharach eleni er mwyn dechrau'r ysgol uwchradd.



Mae'r gymdogaeth hon yn llawn pobl sy'n dod o bob rhan o'r wlad, yn ogystal â'r rheiny a aned yn Lima. Gan ei fod yn anheddiad trefol, mae yna drydan, dŵr mewn pibellau a glanweithdra, yn ogystal â gwasanaethau ffôn a Rhynggrwyd. Erbyn 2010, roedd cyflenwad o nwy naturiol wedi cael ei osod mewn rhai tai. Mae palmentydd ar y rhan fwyaf o'r strydoedd, ond nid ar bob un. Mae yna sawl ysgol a chanolfan iechyd ar gael. Erbyn hyn, mae yna fwy o wasanaethau casglu sbwriel rheolaidd, ac mae'r ardal yn dod yn fwy glân.

Mae yna broblemau cymdeithasol yn y gymuned, er enghraifft lladradau a delio mewn cyffuriau, ond mae'n ymddangos bod y problemau hyn yn lleihau o ganlyniad i ymdrechion yr heddlu. Rhwng 2009 a 2012, roedd y gaeafau'n arbennig o oer, ac roedd hyn wedi effeithio ar iechyd y gymuned. Aeth y llywodraeth leol ati i gyflenwi plastigion a blancedi i frwydro yn erbyn yr oerfel.

Eva, gwledig

Mae Eva (*Aa-fa*) yn 14 blwydd oed, ac mae'n byw mewn pentref gwledig bach yn ucheldir yr Andes ym Mheriw.



Er bod trydan ar gael i'r rhan fwyaf o bobl, ynghyd â dŵr mewn pibelli yn yr iard y tu allan i'w tŷ, mae rhai pobl yn dal i fod hebddynt. Nid oes yna system garthffosiaeth briodol ar gael o hyd, ond mae gan rai aelwydydd doiledau. Er 2011, mae mwy a mwy o bobl yn gallu defnyddio ffonau symudol, ac mae yna fwy o ffonau cyhoeddus a bwth Rhynggrwyd. Mae canolfan iechyd gyhoeddus wedi cael ei hadeiladu yn y pentref, ac mae nyrs a meddyg yn gweithio yno bob dydd. Mae ffordd newydd wedi cael ei hadeiladu, sy'n golygu ei bod 'nawr yn bosibl cyrraedd yr ysbyty cyhoeddus agosaf yn gyflymach. Dim ond 15 munud y mae'n ei gymryd yn y car erbyn hyn – roedd hi'n arfer cymryd 30 munud.

Cafwyd llawer o law ddechrau 2011, a chafodd rhai caeau o gnydau eu dinistrio. Yn 2013, cafwyd gwyntoedd cryfion, rhew a glaw trwm, ac unwaith eto, collwyd rhai cnydau. Mae llawer o bobl yma o'r farn mai y newid yn yr hinsawdd sy'n gyfrifol am y patrymau tywydd newidiol dros y blynyddoedd diwethaf.

Siarad am newidiadau

Fiet-nam



Mae Vu Thi Thanh Huong yn ymchwilydd Bywydau Ifanc yn Fiet-nam. Mae'n siarad am rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser yn y cymunedau lle mae Phuoc a H'Mai yn byw.

Phuoc, trefol

Mae Phuoc (*F-ŵo-c*) yn 16 mlwydd oed, ac mae'n byw gyda'i deulu yn ninas Da Nang.



Mae priffordd wedi cael ei hadeiladu yn agos at yr ysgol gynradd, sy'n golygu ei bod llawer yn haws i'r plant gyrraedd yr ysgol ar eu pen eu hunain. Mae'r brif orsaf bysiau wedi cael ei symud i ran arall o'r ddinas, sy'n golygu bod yr ardal leol yn fwy diogel. Arferai'r orsaf bysiau fod yn fan lle roedd troseddau'n cael eu cyflawni, er enghraifft puteindra a gamblo. Mae marchnad newydd wedi cael ei hadeiladu yn y gymuned, sydd wedi helpu gwerthwyr lleol i brynu a gwerthu eu nwyddau. Datblygiad pwysig arall yw gosod dŵr sy'n rhedeg ar gyfer trigolion lleol.

H'Mai, gwledig

Mae H'Mai (*H-Mai*) yn 13 blwydd oed. Mae'n byw gyda'i theulu mewn ardal wledig dlawd yn nhalaith Phu Yen, Fiet-nam.



Bu llawer o newid yn y gymuned hon. Adeiladwyd ffatri siwgr yn yr ardal, sydd wedi newid bywydau'r bobl yn y gymuned yn fawr. Gallant 'nawr dyfu siwgr cansen, a gwerthu eu cynydau i'r ffatri ar ôl eu cynaeafu. Mae grid trydan wedi cael ei osod, sy'n golygu bod bywydau yn llawer gwell nag yr oeddent gynt. Bellach, mae gan bron bob cartref drydan, ac mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r Rhyngwrwd.

Mae mwy o ffyrdd wedi cael eu hadeiladu, sy'n golygu bod teithio rhwng pentrefi yn haws. Mae ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd wedi cael eu codi yn yr ardal leol, sy'n golygu nad oes rhaid i'r plant deithio mor bell i'r ysgol. Mae ffatri ddŵr newydd wedi cael ei chodi i ddarparu pŵer, ac mae hyn wedi arwain at gollu tir amaeth. Mae pobl 'nawr yn poeni beth fydd y ffermwyr hyn yn ei wneud heb dir i dyfu eu cynydau.

Archwilio newidiadau

Gwlad Bywydau Ifanc: _____

- Pa newidiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd yn y cymunedau hyn?

- Pa newidiadau negyddol sydd wedi digwydd yn y cymunedau hyn?

- Pa rai o'r newidiadau hyn sy'n gysylltiedig â Nodau Datblygu'r Mileniwm?

<i>Newid</i>	<i>Nod Datblygu'r Mileniwm</i>

- A oes yna wahaniaethau rhwng y cymunedau trefol a gwledig o ran faint o gynnydd sydd wedi bod? Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau dros y rhain?

- Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n parhau ar gyfer pob cymuned?

Cymuned drefol

Cymuned wledig

Llinell amser dyfodol delfrydol

2000

2015

2030

